YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
PERSONOLIAETH AC ANFARWOLDEB.
EMRYS AP IWAN.
PRIODAS.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxiv. | Mehefin, 1934 | Rhif 6

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Ni ellir gwell anrheg i Athro neu Ddisgybl yn yr Ysgol Sul

— na chopi o'r —

Geiriadur Beiblaidd

Dwy Gyfrol, Chwarter Rhwym, Graen Moroco - £2 10s.
Dwy Gyfrol, Lliain Cynfas Cryf - - £2 2s.

I'w gael o SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXIV. MEHEFIN, 1934. RHIF 6

"DOS I'TH YSTAFELL—."

"*Ac ni amlygwyd eto pa beth a fyddwn.*"—1 Ioan 3, iii.

O gael dyn wedi blino ar holl amcanion a chanlyniadau ac amgylchiadau bywyd, medrwch fod yn sicr ei fod wedi colli ei ddelfryd, neu na fu yn feddiannol ar ddelfryd erioed.—P. H. WICKSTEED.

* * *

Y nod a'r amcan sydd yn cyfrif, nid y llwyddiant gweledig. Fe all mai pan fo ein ffydd gryfaf a'n ffyddlondeb fwyaf y bydd ein llwyddiant gweledig leiaf.—J. HAMILTON THOM.

* * *

Mae yr hyn sydd yn hawlio ein edmygedd moesol yn ein rhwymo i'w wasanaeth. Ymddiriedir cenhadaeth i'r hwn a ganfyddo odid-owgrwydd.—JAMES MARTINEAU.

* * *

Drwy geisio am y goreu sydd tuhwnt i ni y darganfyddwn y goreu sydd ynnom.—CHARLES BEARD.

* * *

Prawf sicr Cariad yw ufudd-dod, nid teimlad.—YR ESGOB THOROLD.

* * *

Cenhadaeth yw Bywyd, am hynny dyledswydd yw ei deddf uchaf.—MAZZINI.

* * *

Medrwch wneyd unrhyw beth yn y byd, os ydych yn foddlon derbyn y canlyniadau, ac mae canlyniadau yn dibynnu ar gymeriad. W. SOMERSET MAUGHAM.

* * *

Ni fedr neb daflu hen arferiad allan drwy'r ffenestr. Rhaid ei denu i lawr y grisiau, un ar y tro.—MARK TWAIN.

* * *

DAD cyfiawn, yr Hwn wyt bob amser yn barod i arwain yr hwn a fynno ei arwain, gwyddost am ein dyhead i fod yn berffaith fel yr wyt Ti yn berffaith. Gwyddost am chwerwder ein gofid o fethu ohonom ddydd ar ôl dydd i fyw i fyny â'r ddelfryd a broffeswn. Maddau i ni am ein gwendid, ac o wrthod ohonom wrando ar dy lais Di yn ein calonnau, er dilyn y lliaws, nertha ni i fod yn fwy ffyddlon, er mwyn dy enw.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

Pris Rhyddid.

Pris rhyddid yw gwyliadwriaeth barhaus,—"*The price of liberty is perpetual vigilance*,"—dyna ddywedodd John Stuart Mill yn y ganrif ddiweddaf. Credaf i rywun ddyfynnu y frawddeg yn y cwrdd coffa yn Llwynrhydowen. Ac ni fedrai neb a fynnai dalu teyrnged i'r gorffennol, ac ar yr un pryd ddatgan rhybudd i'r oes hon, ddweyd peth mwy tarawiadol, ac mewn man mwy addas.

Dywedai C. E. M. Joad mewn ysgrif ychydig ddyddiau yn ôl ein bod ni mor gynefin a chymeryd yn ganiataol fod rhyddid yn eiddo sicr i ni, fel mai hwyrfrydig iawn ydym i sylweddoli ei bod yn bosibl i ni orfod ymladd er diogelu yr eiddo hwn.

Crewyd ychydig o gyffro ar hyd a lled y wlad yn ystod y dyddiau diweddaf hyn gan y bobl a fynnant ein deffro i wrthwynebiad effeithiol i'r "Incitement to Disaffections Bill" sydd yn awr o flaen y Senedd. Mesur yw hwn amcana i roddi hawl i swyddogion y gyfraith chwilio tŷ unrhyw un *ddrwgdybir* o feddiannu llenyddiaeth gyfrifir yn fradwrus, a'r llenyddiaeth anelir ato yn arbennig yw'r llenyddiaeth yn annog heddwch a diarfogiad a gwrthwynebiad i ryfel. Nid oes a fynno'r cwestiwn o beth feddyliwn am ryfel a diarfogiad a'n gwrthwynebiad i'r mesur hwn ; y peth pwysig yw yr amcenir ymyrryd a rhyddid personol yr unigolyn mewn modd eithriadol o haerllug. Mae y ffaith y beiddir cynnyg y fath fesur i'r Senedd yn awgrym hyll o agwedd ddiystyrllyd ein llywodraethwyr tuag at y breiniau y tywalltwyd cymaint o waed er eu sicrhau. Ond y peth ddylai ein dychrynu yn fwy na haerllugrwydd y Llywodraeth yw maint y difaterwch sydd yn ffynnu o'i herwydd. Bu rhyw gymaint o brotestio a chynnal cyrddau gan y mudiadau bychain hynny sydd bob amser yn effro i unrhyw berygl ddichon fygwth rhyddid. Mae y Crynwyr bob amser yn effro, a phasiwyd penderfyniad yng nghynadledd flynyddol ein henwad ni yn galw ar y llywodraeth i dynnu y mesur yn ôl. Ond, faint yw dylanwad y pethau hyn wedi'r cyfan? Mae gan y bobl fynnant ddiogelu awdurdod gorthrech o flaen pob peth ddigon o ymlynwyr gwasaidd i gael eu ffordd a gwyddant fod

Y Werin yn Ddifater.

Ond efallai mai nid taeru fod y werin yn ddifater yw'r ffordd oreu i fynegu y perygl chwaith. Mae i'r difaterwch ymddangosiadol yma ei achosion. Efallai mai nid diffyg diddordeb yn yr egwyddorion sydd ar brawf sydd yn peri na fu eto brotest effeithiol yn erbyn yr ymosodiad haerllug yma ar ryddid yr unigolyn. Mae yn bosibl

mai prin y deellir beth yw natur y bygythiad. Ac mae'r diffyg yma i'w briodoli i'r ffaith fod cymaint o ddylanwadau nerthol a'u bryd ar rwystro pobl gyffredin heddiw i feddwl drostynt eu hunain. Yn yr oesau gynt yr oedd y werin mewn tywyllwch. Gwnaeth brenin ac arglwydd ac offeiriad eu goreu i'w cadw mewn tywyllwch, gan wrthwynebu hyd yr eithaf bob ymdrech i'w gwneyd yn bosibl i ddyn cyffredin i ddarllen papur na Beibl. Enillwyd brwydr Addysg ac y mae Gwyddor wedi pentyrru cyfleusderau i ledaenu gwybodaeth. Ond o'i gam-ddefnyddio gall y peirianwaith ddylai oleuo meddyliau pobl ddatblygu yn beirianwaith i'w llywodraethu a'u caethiwo,—caethiwed newydd—o bosibl yn waeth na'r hen. A'r perigl mwyaf i ryddid, fel y dywed Joad, yw'r peiriannau mae Gwyddor wedi ddyfeisio i reoli meddyliau pobl. Nid oes dim yn fwy nerthol na dylanwad daliadau a heuir dros fyd cyfan drwy wahanol gyfryngau—ac mae'r nerth yma i gyd wedi ei gronni yn nwylaw perchenogion y Wasg, y di-wifr, a'r cinema. Fel yr awgrymodd rhywun, yr oll mae ein cyfundrefn addysg wedi wneyd i'r lliaws yw eu galluogi i ddarllen pob sothach peryglus a ddewisir ei gyhoeddi gan y wasg boblogaidd. Yn sicr mae angen am i'n hysgolion gyfrannu rhyw gymaint o'r wybodaeth wnai alluogi dinesydd y dyfodol wahanaiethu rhwng yr us a'r gwenith, a chreu ynddo rywbeth a wnai iddo fynnu synnwyr a chwaeth yn ei bapur newydd a'i gylchgrawn. Ond nid yn y genhedlaeth hon y gwelir yr ysgolion na'r athrawon fedr wneyd hyn. Yn y cyfamser beth am

Genhadaeth yr Eglwys

ac yn fwy arbennig, beth am genhadaeth y capel? Er dychryn i lawer yn ddiamau, dywedodd cyn-aelod seneddol Sir Aberteifi yn Llwynrhydowen mai rhywbeth i ofidio o'i blegid oedd y ffaith na chynhelid cyrddau gwleidyddol mewn capeli yn awr. Dywedodd ym mhellach y dylai pob cwrdd fod yn gwrdd gwleidyddol! Meddwl oedd am Wleidyddiaeth yn ystyr eangaf y gair—y wyddor sydd yn ymwneyd a pherthynas pobl a'u gilydd. Mae " gwleidyddiaeth " yn ystyr gulaf y gair wedi suro a chwalu cynulleidfaoedd cyn hyn—ac nid rhyfedd am hyn—ond o ba le y gellir disgwyl yr ysbrydiaeth i ymdrech a brwydr dros Ryddid a Chyfiawnder os nad o gapel ac eglwys.

Sut y gall unrhyw wasanaeth crefyddol fod yn gyflawn os na cheir ynddo yn rhywle nodyn fydd yn cymell pobl i ymdrechion mwy aiddgar dros y gymdeithas ddelfrydol a elwir yn y Beibl yn Deyrnas Dduw. Ac yn y dyddiau hyn hwyrach mai y peth goreu fedrai yr Eglwysi wneyd dros deyrnas Dduw yw gwneyd y gwaith na fedr ein cyfundrefn addysg wneyd—dysgu ac annog pobl i feddwl drostynt eu hunain. O " gael ei gylch-arwain gan bob

awel " dysgeidiaeth wleidyddol ddichon chwythu o gyfeiriad y Tŷ Darlledu neu Balasdai'r Papurau Ceiniog mae dyn yn llai na dyn—ac mewn angen ei " achub ". Ffug a rhagrith yw ein haddoliad o Dduw os nad un o'i effeithiau yw syniad cywir a theilwng o ogoniant dyn. Mae dyn wedi syrthio yn wir isel pan y byddo yn feddyliol yn gaethwas gwirfoddol i syniadau rhywun arall, bydded Arglwydd neu areithiwr pen stryd.

Yn wir, cyrddau " gwleidyddol " ddylai pob gwasanaeth fod a gynhelir mewn capel. Mewn capel yn arbennig,—ac mewn capel Undodaidd yn fwy arbennig fyth. Mewn capel yn arbennig oherwydd, er dymuno ohonom anghofio ffiniau enwadol ac eglwysig, fe'n hadgofir ambell dro fod

Yr " Eglwys " yn " Gwbl Wahanol ".

Dyna o leiaf, hyd y gwelaf i, a awgrymir gan yr hyn a ddywedodd Archesgob Caergrawnt dro byr yn ôl mewn perthynas i Dŷ'r Arglwyddi. Fel y gwyddis, dygodd yr Arglwydd Salisbury Fesur o flaen Tŷ'r Arglwyddi a'i amcan i " ddiwygio " y Tŷ hwnnw. Yn ei araeth ar y mesur dywedodd Archesgob Caergrawnt mai nid cynrychioli Eglwys Loegr wnai yr Esgobion yn Nhŷ'r Arglwyddi. Maent yn rhan hanfodol o lywodraeth y wlad, meddai'r Archesgob, er dyddiau Witan, senedd gyntefig Lloegr. " Os," meddai'r Archesgob, " y gelwir i Dŷ'r Arglwyddi gynrychiolwyr o gymdeithasau crefyddol eraill bydd eu sefyllfa yn *gwbl wahanol* i eiddo yr Arglwyddi Ysbrydol (yr esgobion) er dechreu hanes y Senedd ". Dyma dymer pen Eglwys Loegr, ac anodd yw dyfalu pa ysbrydoliaeth fedr pleidwyr rhyddid gwerinol dderbyn o ddadganiad o'r fath. Beth am

" Yr Eglwys yng Nghymru "?

Bu Esgob Llandaf yn rhoddi siars esgobol tua mis yn ol. Dywedodd rai pethau y byddem i gyd yn barod i gytuno â hwynt. Er engraifft, daliai mai y rhwystr mawr ar ffordd gweithwyr crefyddol oedd, nid gwrthwynebiad a gelyniaeth, ond difaterwch. Gwraidd y drwg yw fod gan bobl syniadau hollol anghywir am y pethau sydd o werth. Gwerthfawrogid pethau ffôl a dibwys. ac ni chyfrifid y pethau gwir werthfawr a thragwyddol o fawr bwys.

Ond cyfeiriodd yr esgob ymhellach at y ffaith fod rhai offeiriaid yn tueddu i bwysleisio yr angen am ymdrechion efengylaidd ar raddfa helaeth. Ond profiad yr esgob oedd mai'r " pwerau mwyaf nerthol er troedigaeth yw sacramentau Eglwys ". Ni ddygid eneidiau at Grist drwy " *stunts* ac ymdrechion anwastad ". Yr oedd gan yr Eglwys yr arf at ei llaw yn ei chyfundrefn ei hun.

Dyma ni felly wyneb yn wyneb a haeriad newydd mai drwy'r pethau na chyfrifwn ni yn fawr gwell na ofergoeledd yr Oesau Tywyll y daw Teyrnas Dduw.

Apeliodd yr Esgob ymhellach at Undeb Eglwysig yng Nghymru. Ni chafodd ei wahoddiad fawr groeso.

Mae pob dyn synhwyrol yn dyheu am undeb y pwerau sydd yn gweithio yn ysbryd Iesu er adeiladu Teyrnas Dduw. Ond undeb ar sail y gred mai'r Sacrament yw calon crefydd ! Dydd tywyll fydd hi ar grefydd pan y daw hynny i ben. Nid oes le i Ryddid pan y teflir Rheswm dros y bwrdd. Pris Rhyddid eto yw gwyliadwriaeth barhaus, ac mae pob gwyliwr a'i lygaid a'i glustiau yn llydain agored fel na chollo yr un pelydryn na'r un tinc.

Mae angen am wylwyr.

HEN WR GER Y TAN.

Efel. o " Old man by the fire."

Heuliau pedwarugain hafau
Gysgant ar dy leddfol gân,
Dwylo grafant frethyn cartre
Ar dy lin ger bron y tân.

Syllu'r wyt ar fflamiau'n codi
Er cael gweld y blwyddi lu—
Yr wyt eto yn syllddremu,
Ar rai annwyl yma fu.

'Rwyt yn hên a chrwm dy gefen,
A'th wallt gwinau heno'n wyn—
A'r gwythiennau mawr yn chwyddo
A phob aelod sydd yn dynn.

Troi dy ben mewn ffordd holiadol
I gyfrinion sydd ynghudd—
Glywi di hen gân y bladur
Yn gwrthdroi ei gwanaf rydd.

D' oes oedd oes y bladur finiog
Pan y gwyddai gwerin gur ;
A chynefin oet a miwsig—
Miwsig hen y bladur ddur.

Clywet chwiban oer y garreg
Pan darawai'r cryman cam,
A'r hen gambo yn ymnyddu
Fel hen wr o gam i gam.

Ieuanc oeddit ti bryd hynny,
Dyfal weithio awr ar awr ;
Diflin y llafuriet beunydd
Nes yr ai yr haul i lawr.

Brenin oeddit ar y ffasiwn
Tra'r oedd tractor eto'n fud—
Mewn ymennydd yn datblygu
Er mwyn rhwygo meusydd byd.

Wedi gorffen ar dy lafur,
Nid yw'r byd dy eisiau'n hwy ;
Hawdd dy hepgor, ac yn ango'
Drwy dy sir y byddi mwy.

Ond gadawsant i ti eto
Le'n yr haul a'i olau glân
Pan fachludo a'r awr ola
Ti gei sedd a hedd dy dân.

Ffynnonoer. DAVID HUGHES.

*Personoliaeth ac Anfarwoldeb.

Heb yr un amheuaeth, diwrnod mawr cyrddau blynyddol yr enwad yn Llundain eleni oedd diwrnod traddodi yr *Essex Hall Lecture* gan yr Athro Dawes Hicks. Yr oedd yr athro wedi dewis testun pwysig, ac o wrando arno yn traethu ar y broblem, teimlid fod y ddarlith yn cynnwys cyfoeth bywyd hir o ymchwil am y gwirionedd. Fel arfer cyhoeddir y ddarlith gan Wasg Lindsey mewn llyfryn swllt, ac yn sicr nid yn aml y ceir cyfle i brynu cyfraniad mor bwysig i lenyddiaeth grefyddol am swllt. Yn yr hyn a ganlyn ymdrechir rhoddi crynhodeb o brif ymresymiadau y ddarlith.

* * *

Er dyddiau athroniaeth Groeg, bu dwy ffordd o esbonio y byd ydym yn byw ynddo. Daliai un dosbarth o athronwyr fod popeth yn gweithio fel peiriant, un peth yn canlyn y llall yn rheolaidd, ond neb yn medru dweyd paham mae pethau yn digwydd fel y maent. Gwrthwynebid y syniad hwn gan athronwyr a haerant fod ystyr a phwrpas i bob peth sydd ac i bob peth sydd yn digwydd.

Yn y pen draw ni fyddai bywyd rhesymol yn bosibl pe bai yr haeriad cyntaf yn wir. Mae y ffaith y gall meddwl dynol ddeall ac esbonio fel y mae un digwyddiad yn canlyn y llall yn y byd naturiol yn awgrymu bodolaeth meddwl o'r tu ôl i'r cwbl sydd o'r un natur a'n meddyliau ni. Rhaid i athroniaeth wir ddangos fod pwrpas ac amcan yn y byd. Datblygiad sydd yn cymeryd lle ac nid rhestr o gyfnewidiadau diamcan.

Rhagor na hynny, dyn yw canolbwynt y cyfanfyd. Yn faterol,—a chyfrif maint ei gorff, nid yw dyn ond trychfilyn distadl yn byw ar blaned nad yw ond megis gronyn o dywod o'i chymharu a heuliau anferth y pellderau. O'r safbwynt yma anodd yw credu fod y cyfanfyd i gyd wedi ei greu er cynyrchu peth mor ddistadl a dyn. Ond nid yw maint corfforol, a maint meddyliol neu foesol i'w mesur wrth yr un safon, nac i sôn am danynt yn yr un iaith. Nid oes un rheswm dros hawlio y dylai y bod *uchaf* yn y cread fod yn un *mawr* o faintioli. Hyd'y gwyddom ni, *personoliaeth* ddynol, hyd yn hyn, yw cynyrch uchaf datblygiad.

Ond beth yw personoliaeth? Cytuna pawb fod personoliaeth yn golygu ymwybyddiaeth, neu brofiad, y peth sydd yn gwahaniaethu yr hyn sydd ganddo feddwl, oddiwrth yr hyn sydd heb feddwl. Ond mae personoliaeth yn golygu rhagor na hyn. Mae gan lygoden feddwl, ond ni fyddai neb yn sôn am bersonoliaeth llygoden. Ni fyddai neb yn sôn am bersonoliaeth ond mewn

*Human Personality and Future Life. G. Dawes Hicks, M.A., Ph.D., Litt.D., Essex Hall Lecture, 1934. Lindsey Press, 1s.

cysylltiad ag unigolyn, sydd yn parhau yr un drwy amrywiol brofiadau. Ond mae hyn yn wir, er enghraifft, am ddafad. Mae defaid yn unigolion i'r bugail, mae yn eu hadnabod oddiwrth ei gilydd. Medrid dweyd ymhellach fod pob personoliaeth yn unigolyn rhesymol, yn feddiannol ar y gallu i *feddwl*. Ond byddai llawer yn barod i haeru fod ci yn medru meddwl. Rhaid desgrifio personoliaeth felly fel rhywbeth sydd yn eiddo i unigolyn sydd wedi dyfod *yn ymwybodol ohono ei hun*. Drwy ddyfod yn hunan ymwybodol mae y meddwl unigol yn medru synio am dano ei hun ar wahan i'r byd mae yn byw ynddo. Hanes datblygiad meddwl dynol yw hanes y ffordd mae yn raddol yn dyfod yn fwy ymwybodol ohono ei hun fel bod ar wahan i'w fyd, ac ar yr un pryd yn dyfod yn fwy ymwybodol o fyd o wrthrychau sydd tu allan iddo ef ei hun.

Drwy gydol cwrs datblygiad y cyfanfyd nid oes dim yn agos mor bwysig a'r cam yma *o ymwybyddiaeth i hunan ymwybyddiaeth*. Dyma gychwyniad newydd yn natblygiad y meddwl, cychwyniad *i gyfeiriad hollol newydd*.

Er deall hyn, ni raid i ni ond cymharu dyn a'r creaduriaid nesaf ato ar rîs datblygiad,—yr epaod. Bodolent oesoedd cyn i ddyn ymddangos, ond nid ydynt fymryn yn agosach heddyw i ffyrdd gwareiddiad nag oeddent yn yr oesoedd pellenig. Cychwynodd dyn ei yrfa yn ddiamau mewn ogofeydd a choedwigoedd, ond ni arhosodd ynddo. Nid aros hyd nes yng nghwrs amser y deuai yn gyfaddas i fyw yn ei amgylchedd oedd ffordd dyn ond newid yr amgylchedd fel ag i'w gwneyd yn gyfaddas i fyw ynddo. Ac yng nghwrs yr oesau mae hyn wedi golygu sychu'r corsydd a dyfrhau'r anialwch, gwrteithio'r tir ac adeiladu dinasoedd a threfi. Mae wedi golygu tyfiant yr oll o'r sefydliadau cymdeithasol hynny sydd yn gwneyd bywyd gwareiddiedig yn bosibl. Law yn llaw a chynnydd gwareiddiad cynhyddodd gallu y meddwl dynol. Daeth llenyddiaeth i fodolaeth, i ddiogelu y cyfoeth a gasglwyd ar hyd yr oesau gan y meddwl dynol yn ei ymchwil am Y Gwir a'r Prydferth. Mae y pethau hyn wedi peri i ddynion sylweddoli fod iddynt *amgylchedd ysbrydol*, yn fwy nerthol ei ddylanwad ar eu datblygiad na'r amgylchedd naturiol ; ac mae'r amgylchedd ysbrydol yma yn cynnwys delfrydau,—y Gwir, y Prydferth, a'r Da. Nid cynyrch meddwl a dychymyg dyn yw'r pethau hyn, ond maent yn llawn mor sylweddol (*real*) a phethau materol.

* * *

Yn ei ddadl fawr, y Phaedo, sonia Plato am " Diriogaeth yr Hanfodau," (Realm of Essences, or ' Ideas '). Yr un mewn gwirionedd yw'r diriogaeth yma a'r " amgylchedd ysbrydol " y buwyd yn sôn am dani. Dadleua Plato'r ffaith fod yr Hanfodion yma yn dragwyddol brofi fod y meddyliau dynol fedr eu hamgyffred yn dragwyddol hefyd. Er engraifft, os oes yna y fath beth ag *Y Gwir* yn bodoli ar wahan ac yn annibynnol o'n syniadau ni o'r hyn

sydd wir, pa ystyr fyddai iddo fel Sylwedd Tragwyddol os mai dros amser yn unig y bodola y meddyliau fedr ei amgyffred? Mae ymresymiad Plato yn werthfawr am iddo bwysleisio gwerth uchaf Meddwl a Gwybodaeth yn nhrefn pethau. O sylweddoli ei wendid a'i amherffeithrwydd, hawdd i ddyn cyffredin deimlo nad yw o fawr wahaniaeth i'r Drefn fawr a oes parhad i'w personoliaeth ef neu beidio. Ond mae yna rywbeth yn anioddefol yn y syniad i Socrates a Dante, a Shakespeare a Newton a Goethe gael ei dileu o fodolaeth o farw o'u cyrff. Os oes Duw yn bod, amhosibl yw credu iddo oddef yr eneidiau mawr hyn i syrthio i ddifodiant. Ond mae credu mewn Duw nid yn unig yn ein gorfodi i gredu fod parhad i eneidiau mawr y byd ond fod parhad hefyd i bobl gyffredin, oherwydd mae i bob personoliaeth feddwl sydd yn medru gwybod ac adnabod, ac er i'r wybodaeth fod yn brin, mae yn wybodaeth na sydd yn eiddo i neb arall, ac ynddi addewid o dyfiant a ffrwyth di-ddiwedd.

* * *

Credir yn bur gyffredin mai rhesymau moesol yw'r rhesymau cryfaf dros gredu fod bywyd dyfodol i'r enaid dynol. Dadleuodd Aristotle ers canrifoedd yn ôl nad oes ystyr na phwrpas i fywyd moesol heb fod yna Nôd Foesol i'w chyrhaedd. Mae ffeithiau y bywyd moesol yn ein gorfodi i gydnabod fod yn rhaid fod yna ddelfryd neu nôd, yr hon o'i sylweddoli roddai foddhad perffaith i bersonoliaeth dyn. Mae pob ysbrydoliaeth a chymhelliad i fyw yn dda yn tarddu o'r syniad fod yna Dda eto heb ei gyrhaedd ac yn anfeidrol well na dim gyrhaeddwyd eto. A phwy anturiai ddweyd fod neb yn y byd hwn, wedi dyfod yn agos i sylweddoliad o'r uchaf y medrwn synio am dano, na'i bod yn bosibl yma i ddyfod o bell ffordd tuag at berffeithrwydd ein delfrydau. Eneidiau goreu'r byd fu barotaf i gydnabod fod y ddelfryd o hyd tuhwnt i'w cyrhaedd, ac iddi gilio o hyd fel y deuent yn agos ati. Ond, a ydyw'r gwrthgyferbyniad yma rhwng yr hyn sydd a'r hyn ddylai fod i barhau am byth? Ai tynged dyn yw ceisio heb obaith cael? Mae yna rywbeth yn wrthun yn y syniad i ni gael ein creu i gynhyddu heb i ni obaith sylweddoliad.

Credwyd felly gan lawer o feddylwyr na fyddai bywyd moesol yn bosibl bellach pe na byddai gobaith am gyrhaedd y ddelfryd. Er i ni fethu dan amgylchiadau y byd hwn, mae y ffaith fod gorfodaeth fewnol arnom i gydnabod a cheisio'r ddelfryd yn brawf y gellir ei chyrhaedd. Felly o gofio mai y bywyd moesol yw nodwedd arbenicaf bodau hunan ymwybodol rhaid credu na all fod terfyn i gynnydd moesol un o'r bodau hyn o farw o'r corff, nac yn wir o farw o'r heuliau a'r sêr i gyd. Rhagor na hynny, amhosibl yw credu mai gwastraff i gyd fu yr egni ysbrydol wariwyd gan eneidiau fu yn ymdrechu ar hyd blynyddau eu gyrfa ddaearol i berffeithio eu hunain. Mor wrthun i reswm yw meddwl iddynt ddarfod am byth pan font fwyaf cymwys i waith a gwasanaeth.

Mewn gwrthwynebiad i hyn dywedir gan rai fod pob ymdrech foesol yn colli ystyr o gyrhaedd perffeithrwydd. Gofynner, pa ystyr fydd bellach i ddyledswydd, pa angen am ymdrech o unrhyw fath o sylweddoli'r ddelfryd. Ond mae yn bosibl synio am *gynnydd mewn sylweddoliad* yn ogystal a *chynnydd tuag at sylweddoliad*. Ni fyddai diflannu o'r drwg yn gwneyd i ffwrdd ag anturiaeth a newydd-deb. Er enghraifft, os mai'r gwynfydedigrwydd pennaf yw gweled Duw, mae'r gwrthrych a welir mor anfeidrol berffaith fel y byddai'r awydd yn aros i weled rhagor a gweled ymhellach.

* * *

Yn ddiweddaf oll, beth am yr agwedd *deimladol* o brofiad personol. O ystyried yr oll o agweddau profiad dynol, onid " y mwyaf o'r rhai hyn yw cariad ". Bu cariad yn elfen ganolog yn nhyfiant y bywyd dynol. Daeth cariad dynion at eu gilydd yn elfen burach a chyfoethocach o hyd yn ein bywydau, hyd nes yn wir o'r diwedd i ddyn lwyddo, ar adegau beth bynnag i garu eu gymydog fel ef ei hun. Mae gallu dyn i garu yn ddi-derfyn ac ni fedrir ei ddihysbyddu o bell ffordd yng nghwmpas byr y bywyd daearol. Amhosibl yw credu mai'r peth olaf fedr cariad dynol wneyd yw gofidio ar lan bedd ar ôl un a garwyd ond sydd wedi diflannu am byth. Mae'r ffaith o gariad felly yn cefnogi ac yn cryfhau y ffydd mewn bywyd dyfodol genhedlir gan y profiad moesol a rhesymol. Tystiolaeth ddiamwys Cariad yw ei fod yn drech nag Angeu. Syniad annheilwng o Dduw fyddai gan unrhyw un a gredai fod ei gariad at ei gyd-ddyn yn fwy, ac yn fwy *real* na'r Cariad yn yr hwn y dylai hyderu.

* * *

Credir ambell waith y cyfoethogid ein bywydau daearol, ac y rhoddid ystyr newydd iddynt pe y gellid bod mor sicr o'r bywyd dyfodol ag ydym o godi haul yfory. Credir y medrem arwain bywydau mwy teilwng ac urddasol pe y rhoddid gweledigaeth glir i ni o'r *llwybr hyd ei ddiwedd*, bywyd sydd i ddyfod. Ond cwyd amheuaeth ynglŷn â hyn. Ai nid yw yn bosibl mai y paratoad gore ar gyfer bywyd uwch yw dysgu gwerthfawrogi holl gyfoeth ac ystyr a phrydferthwch y pethau sydd at ein gwasanaeth yma. Os y rhoddir i ni yma gyfleusderau di-ddiwedd i foldio eneidiau ; os yw'r wybodaeth a'r cariad fedr fod yn eiddo i ni yma yn werthfawr ynddynt eu hunain, hwyrach mai'r drefn ddoethaf er lles datblygiad ein heneidiau yw fod manylion y bywyd dyfodol wedi eu cuddio oddiwrthym. Felly y credai Kant. " O fod Duw a thragwyddoldeb, yn eu holl fawrhydi ofnadwy o flaen ein llygaid yn barhaus, byddem beunydd yn pryderu am y dyfodol, yn lle gweithredu yma oddiar gymhelliadau dyledswydd . . . Mae y Doethineb anchwiliadwy yn gymaint i'w edmygu am yr hyn mae wedi guddio ag am yr hyn mae wedi ddadguddio."

G.

Emrys ap Iwan.

Dyddiau breuddwydio disglaer am ddyfodol Cymru a Chymraeg yw'r dyddiau hyn, dyddiau Urdd Gobaith Cymru, a'r Blaid Genedlaethol Gymreig. Gwneir ymdrechion egniol a rhyfedd o lwyddiannus i ddysgu Cymraeg o'r newydd yn ein hysgolion. Yng nghanol y twrw i gyd, diddorol yw cofio am rai fu megis yn tanio yr ergydion cyntaf yn y frwydr, cyn i neb ond odid, sylweddoli yn hollol fod iaith a gwrtaith Cymru mewn gwir berigl. Nid y lleiaf ymhlith yr arwyr bore hyn oedd Emrys ap Iwan.

Mewn plas o'r enw Bryn Aber yn ymyl Abergele, yn Nyffryn Clwyd, ar y 24ain o Fawrth 1851, y ganwyd Emrys ap Iwan, er nad oedd yn fab i rieni a chanddynt freintiau golud. Yn hytrach, byw ym mhlas eu meistr yn ystod misoedd y gaeaf, ac yntau i ffwrdd, fyddai arfer John Jones y garddwr, a'i wraig Maria, ac ar wahan i hynny, fel pobl syml werinol ymhlith tyddynwyr y fro y trigent. Yr oedd y naill yn meddu ar feddwl annibynnol cryf, a'r llall, wedi cael addysg well na'r cyffredin.

Cychwynnodd eu mab ei addysg yn ysgol feunyddiol Abergele, ac yn fore dangosai allu arbennig i graffu a deall yn hytrach na dysgu ar ei gof. Aeth i weithio mewn siop yn Lerpwl pan yn bedair ar ddeg oed, ac ar ôl rhyw flwyddyn yno dychwelodd adref a'i fryd ar fyned yn arddwr. Fel ffafr, cafodd waith o dan bengarddwr Syr Hugh Williams, Bodelwyddan, a'i bleser mawr yn ei oriau hamdden ydoedd darllen popeth o fewn ei gyrraedd am hanes Cymru. Teimlai syched anniwall am wybodaeth ac ar waethaf amgylchiadau gwael, bu ardal ei enedigaeth yn ysbrydiaeth iddo, canys yno siaredid yr iaith buraf ar dafod y pryd hwnnw.

Pan yn ieuanc dangosai benderfyniad grymus, er y teimlai ei annheilyngdod beunydd. Yn wir, hynny a'i gyrrodd i'r Cyfandir, yn ogystal a rhesymau eraill, yn ôl ei eiriau ef ei hun :—" Fy niben i yn mynd mor bell oddicartref oedd, nid i ddysgu French a German yn unig, ond hefyd i wrthweithio dau ddiffyg mawr sydd wedi bod ar ffordd fy llwyddiant fel student a phregethwr, sef diffyg ymddiried ynof fy hun a diffyg parodrwydd ".

Yn fuan cododd ynddo awydd i bregethu—hynny oedd prif atynfa meibion Ymneilltuaeth y cyfnod—a thrwy gefnogaeth cyfeillion a gweinidogion a sylweddolai ei ddawn, aeth i Goleg y Bala lle y cyd-fyfyriai â Puleston Jones, Iolo Caernarfon, ac eraill.

Ar ôl gorffen yn y Bala, daeth adref heb benderfynu pa gwrs a gymerai, ac am ychydig fisoedd bu'n athro ysgol yn Rhuallt, ac yn bugeilio achos Saesneg y Methodistiaid yng Nghaergwrle yn Sir Fflint. Wedi iddo ennill cymeradwyaeth fel athro ymgeisiodd am le ar y Cyfandir drwy swyddfa yn Llundain, ac ymhen amser byr cawn ef yn yr " Institut Delessert " yn Lutry, yn agos i Lausanne yn dysgu Ffrangeg ac Almaeneg, ac yn gwasanaethu fel athro Saesneg i'r ysgol.

Tra yr arhosai yno ysgrifennodd lythyrau diddorol iawn yn ôl i Gymru yn llawn profion o'i graffter a'i weledigaeth fanwl. Y prif gymhelliad a'i dug yn ôl, oedd oedran ei rieni, er mai prin odiaeth oedd ei enillion ; eto, ni rwystrodd hynny fawr arno i sugno maeth o'r bywyd newydd, nwyfus o'i amgylch. Ofer oedd iddo feddwl am fyned i Brifysgol yn yr Almaen, er boddhau'i awydd am ddysgu ieithoedd, ac hyd yn oed ar ôl cael cynnyg am yr ysgol lle y bu'n athro gorfu iddo ddyfod adref yn 1876. Bu am rai misoedd mewn ysgolion yn Bonn a Giessen wedi hynny, yn ceisio lle fel athro, ond ofer fu'r ymchwil a dychwelodd eilwaith i Gymru.

O hyn ymlaen, dechreuodd ar y gwasanaeth amhrisiadwy a roddodd o'i wirfodd fel gwladgarwr, ysgolhaig, llenor, beirniad, athro, bugail, a phregethwr i'w hoff wlad hyd awr ei angau ar Ddydd Sul, Ionawr 6ed, 1906.

Ymhen ychydig amser ar ôl dychwelyd o'r Cyfandir dechreuodd draethu ei farn yn y papurau. Credai yn y ffordd hon o daenu gwybodaeth, yn wir, gweithredu yn ôl efengyl Courier a wnai, sef :—" Cymerwch eich beio, eich dyfarnu, eich carcharu ; cymerwch eich crogi, ond cyhoeddwch eich barn . . . Dyledswydd yw hyn ac nid braint ".

Dylanwadodd y pamffledwr Ffrangeg, Paul-Louis Courier arno yn gynnar yn ei fywyd ; teimlai Emrys rhyw dynfa neillduol ato oherwydd tebygrwydd ei brofiadau a'i farn i'w rai ei hunan. Ymddangosodd ysgrif ganddo ar Courier yn *Y Geninen* 1903, yn dwyn tystiolaeth sicr i'r ymwybyddiaeth lletach a'r gweledigaeth ehangach a roes profiad allan o syniad y Cymry o'i gwmpas, iddo.

Ym mis Rhagfyr 1876 dechreuodd ei ymosodiad ar ormes y mudiad Seisnig ymhlith y Methodistiaid yng Nghymru, a geisiai foddhau'r Saeson a ddaeth i fyw yn y trefi ffasiynol, a'u efelychwyr ffôl o Gymry, wrth godi capeli Seisnig iddynt. Dadleuai Emrys fod y bobl hyn yn creu angen am foddion i ladd cenedlaetholdeb a chrefydd Cymru, lle nad oedd galwad o gwbl.

Gosododd ei fys ar bwynt pwysicaf y dydd ymhlith y Methodistiaid, ond peri syndod a chamddealltwriaeth cyffredinol a wnaeth ei driniaeth newydd ef ohono.

O natur, coleddai syniadau lletach na'i gylch yn Nyffryn Clwyd, a'r ffaith hon ynghyd a'i brofiad ar y Cyfandir a roes fod i'w amgyffred annibynnol o bethau. Mewn ysgrif a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1877 cawn ef yn datguddio duwiau Gwalia fel " y llo aur a'r llo Seisnig ", ac er iddo ddirmygu " gallu'r llo aur " o waelod ei galon, dros ei feirniadaeth lem ar " y llo Seisnig ", o hyn hyd ddiwedd ei oes, y gorfu iddo ddioddef.

Gesyd ei farn ar y pwnc ger bron y wlad yn hollol eglur fel hyn :— " Ni raid dywedyd wrth y rhai craffaf ohonoch nad wyf fi ddim yn erbyn i chwi barchu pob Sais sy'n haeddu parch . . . Dadleu

yr wyf fi nad yw corff y genedl Seisnig ddim yn gyfryw bobl ag y dylem ni y Cymry eu haddoli a'u dynwared."

Rhydd olau ar ei safle pan ddywed :—" Tra bo gwaed cenedl fwy annibynnol yn rhedeg yn fy ngwythiennau nid allaf ond ystyried eich gwaseidd-dra yn ffieidd-beth a chwithau yn ddirmygedig." Dyna sail ei feddwl a'i waith fel gwladgarwr.

Cyhuddiad bron pob un o'i wrthwynebwyr yn ei erbyn ydoedd ei fod am gadw'r Cymry yn uniaith. Disail hollol ydoedd hyn, eithr ei amcan oedd iddynt dyfu yn genedl aml-ieithog a diwylliedig. Credai mai'r iaith ydoedd anadl einioes gwlad fechan fel Cymru, ac os y collai hi, byddai ei hyspryd a'i chorff yn llygru hefyd. " Rhaid fod cenedl wedi dirywio yn ddirfawr," meddai, " pan elo hi yn ddifater am barhâd ei bywyd ei hun . . . Os nad yw pobl yn ewyllysio bod yn genedl, yna nid ynt yn haeddu bod yn genedl. Yr un ffunud, os bydd marw iaith y Cymry, marw a wna am na bydd yn haeddu byw."

Cyngor mawr ganddo er cywiro'r bai ydoedd dysgu Cymraeg i'r plant yn yr ysgolion beunyddiol. Yna fel ymhob adran arall o fywyd, saif fel proffwyd a gweledydd yn meddu gafael sicr ar wir sylwedd a chyflwr pethau. Ysgrifennodd erthygl ar y pwnc, gan brofi y byddai dysgu Cymraeg yn yr ysgolion yn fuddiol er mwyn y genedl, ac oherwydd anhawster yr iaith, yn hyrwyddo gallu i ddysgu ieithoedd eraill yn fuan, nes y gellir ei gwneuthur yn gyfrwng i ddysgu Saesneg, ac y byddai yn fanteisiol i grefydd a moesoldeb y wlad hefyd. Yn wir, un o'r pethau amlycaf yn ei ysgrifau ar y pwnc, yw ei ffydd yn y ffaith y buasai ymwrthod â Chymraeg, a difodiad y genedl, yn beth croes i grefydd ac annibyniaeth ysbryd.

Nid yn unig amddiffyn ei genedl ei hun a wnaeth ychwaith, ond unrhyw genedl a welai dan ormes, a hynny yn y dull mwyaf gonest mewn bod. Yn 1881 arfogodd ei hun o blaid y Gwyddelod, ac yn y llythyr a ysgrifennodd at Mr. Gladstone, yn ei ddull nodweddiadol dywed :—" Gollyngwch eich gafael ar wlad nad yw eiddoch a gadewch i gynrychiolwyr y Gwyddelod ymgyfarfod i ddeddfu iddynt eu hunain yn eu gwlad eu hunain. Yn Saesneg, " Mind your own business and let the Irish mind theirs." Defnyddiodd wroldeb ymgais y Gwyddyl i lywodraethu eu hunain fel modd i " yrru eiddigedd ar ei gig a'i waed ei hun " megis y tywalltodd dirmyg arnynt yn ei " Ddadl Seneddol " drwy osod yng ngenau Mr. Gladstone y geiriau :—" Tystia Thierry yr hanesydd Ffrengig fod tywysogaeth Cymru yn amser Llywelyn ap Iorwerth yn fwy gwâr,—yn fwy *intellectual* na phob cenedl arall yn Ewrob, ac yr wyf yn tybied y gallasai y wlad fach honno, fel gwlad Canan gynt, fod yn oleuni i'r cenhedloedd o hynny hyd yn awr pe codasai ynddi chwaneg nag un Ywain Glyn Dŵr i bwtian y tân."

[*I'w barhau.*]

Priodas.

MAWRTH 31ain, yng Nghapel y Graig, Trebanos, priodwyd DAVID GWYNFOR WILLIAMS, Rhydyfro a LILIAN BOWEN, Trebanos. Gweinyddwyd gan y Parchn. J. D. Jones a D. G. Rees. Cofrestrwyd gan Mr. Noah Davies. Ein dymuniadau puraf i'n cyfeillion ieuanc.

Marwgofion.

EBRILL 30ain, yn 57 mlwydd oed, JOHN DAVIES, Morfa House, Llandysul. Yr oedd ei iechyd ddim yn dda ers tro bellach ond daeth y diwedd yn lled annisgwyliadwy a disymwyth i bawb ar y dydd uchod. Yr oedd yn ŵyr i'r diweddar Mr. a Mrs. James Davies, Cefngwallter o'r plwyf hwn ac adnabyddid ef o hyd ymhlith ei gymdeithion fel Johnnie Cefngwallter. Daearwyd ei weddillion marwol ar y 3edd o Fai yng nghladdfa Pantydefaid lle mae ei deulu wedi bod yn ffyddlon iawn gyda'r achos. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Rhydderch, B.A., Seion (A), ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog, y Parch. E. Gwilym Evans, B.A. a'r Parch. Dewi J. Jones, Capel-y-groes. Gadawodd i alaru ar ei ôl weddw ac unig ferch. Bydded tad yr amddifad yn nodded iddynt yn ei profedigaeth lem.

MAI 5ed, yn Woodlands, Talgarreg, WILLIAM DAVIES gynt o Pantscawen, Pontshaen, yn 90 oed. Mab Pantscawen ydoedd ; yno'i ganwyd ; yno y treuliodd yr oll o'i oes faith hyd nes y symudwyd ef tua blwyddyn a hanner yn ôl i'r lle uchod i gael ymgeledd yn ei lesgedd a chredwn i'r teulu yn Woodlands wneud ei orau iddo. Yr oedd yn un o ddeg o blant : erbyn hyn un yn unig sydd yn aros. Yn ei flynyddoedd gorau yr oedd yn un o brif amaethwyr y fro ; yr oedd grân ar y ceffylau a'r anifeiliaid ereill fegid ganddo. Ni bu'n briod, ond yr oedd o dymher mor hynaws fel na chafodd yn ei dymor gorau yr un anhawsder i gael a chadw gwasanaethddynion. Wedi cyrhaedd ei 80 mlwydd aeth cario'r fferm ymlaen yn gryn faich iddo ac amlwg ydoedd fod yr hen ogoniant wedi diflannu. Yr oedd yn gwmniwr bron dihafal o'i gael i hwyl siarad. Nid bob amser y delai'r hwyl er y cofiwn am un neu ddau a fedrent ei godi i hwyl dda ar unrhyw adeg. Dyn gonest, didwyll, difyrus oedd William Davies, a bydd yr ardal i lawer gryn dipyn yn wacach o'i golli. Gadawodd frawd oedrannus a neuaint i gwyno ei golli. Claddwyd y Mercher dilynol yng nghladdfa'r teulu yn hên fynwent Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul, a J. Rhedynog Evans, Ciwrad Llandysul.

MAI 14eg. Drwg gennym gofnodi marwolaeth EVAN JOHN, mab bychan Mr. David a Rachel Williams, Cottage, Horeb, yn saith mis oed, Llun Mai 14eg. Claddwyd ym mynwent Cwmsychbant, Iau, Mai 17eg. Yn y tŷ ac yn y Capel gwasanaethwyd gan y Parch. T. Davies, Horeb, ac ar lan y bedd gan y Parch. S. Evans-Bowen.

Aeth diniweidrwydd at ei Dduw
Dros fyth i fyw'n ei burdeb.

MAI 15eg, yn 59 mlwydd oed, MARGARET EVANS, priod David T Evans, Pantglas, Llanfihangel-Ystrad. Bu yn wael am tua phymtheg mlynedd. Tua phum' mlynedd yn ôl bu o dan weithred law-feddygol, ond ni symudwyd achos ei hafiechyd, a bu y blynyddau diweddaf yn dra phoenus ar brydiau. Er ei bod, tra yn iach, yn un ddiwyd gyda'i goruchwylion, eto yr oedd ei hoffder o ddarllen yn peri ei bod yn gallu trefnu amser i hynny, a phan yn ei chymdeithas, can-

fyddem ei bod nid yn unig wedi darllen llawer o lyfrau, eithr hefyd, wedi deall eu neges, ac yn medru eu adrodd. Yr oedd ei hafiechyd maith wedi peri ei bod wedi rhoddi sylw mawr i bethau pwysig bywyd, ac yn ei hymddiddan byddai yn rhoddi pwys mawr ar ddidwylledd ac uniondeb. Iddi hi yr oedd bywyd yn beth mwy nag amgylchiadau bydol da, a chredwn ei bod wedi cyrraedd mesur helaeth o'r gwir fywyd. Yr oedd yr achos yn Rhydygwin yn annwyl iddi, a charai siarad am dano. Yn ystod ei chystudd maith cafodd bob tiriondeb oddiar law ei theulu. Claddwyd yn Rhydygwin, yr angladd yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. Dewi J. Jones. Gadawodd ddwy ferch, mab-yng-nghyfraith ac wŷrion, a dwy chwaer, a pherthynasau eraill mewn dwys alar.

Nodion yr Eglwysi.

PWYLLGOR GWEITHIOL Y GYMDEITHAS [Adran Ceredigion].—Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn Rhydygwin nawn Mercher, Mehefin 13, am 2 o'r gloch. Disgwylir y Gweinidogion ac un cynrychiolydd o bob cynulleidfa iddo. Rhaglen :—[1] Trefnu cynnal Cwrdd yng Nghwmmwrdu ; [2] Ystyried awgrym y " General Assembly " ynglŷn â Penrhiw a Phant-teg.—E. O. Jenkins.

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Mai 2, rhoddodd côr y plant ddatganiad o'r Operetta—" *The Awakened Princess* ". Arweinydd y côr ydoedd Mr. Hopkin Jones ; cyfeiliwyd gan Miss Olwen Bowen, ac arweiniwyd yr Orchestra gan Mr. Marles Williams. Yr oedd Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe yr orlawn o wrandawyr, ac y mae'n sicr i bawb gael boddhad. Y mae llawer blwyddyn er pan ymgymerodd y côr plant â pherfformio gwaith cyffelyb, ac ac nid oes betruster na ddatguddiodd y perfformiad hwn fod eto yn ein plith olud o dalent. Gobeithiwn na bydd i'r talentau hyn fynd ar goll oherwydd eu cuddio. Diolchwn i'r cyfeillion a enwyd, yn ogystal a Mr. Cyril Griffiths, am hyfforddiant mor fedrus. Diolchwn hefyd i bawb a fu'n eu cynorthwyo i osod elw mor dda yn y *Building Fund*.

CYMANFA YSGOLION SUL.—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul y rhanbarth uchaf yng nghapel Ciliau Aeron, Mai 17eg. Yr oedd y gymanfa hon yn un dra llewyrchus. Teimlem fod awyrgylch ddymunol yn y ddau gyfarfod. Holwyd ysgolion Ciliau Aeron a Chwmsychbant yn y boreu gan y Parch. Dewi J. Jones. Yn y prynhawn holwyd ysgolion Cribyn a Rhydygwin gan y Parch. Dewi J. Jones, ac ysgol Capel-y-bryn gan y Parch. Lewis Williams. Ar ddechreu cyfarfod y prynhawn adroddwyd penodau gan blant o ysgolion Sul Cribyn a Chapel-y-bryn, ac yr oedd yr adroddiadau yn neillduol o dda. Gorfu i'r Parch. S. Evans-Bowen, yr hwn oedd i holi ysgolion Cribyn a Rhydygwin, ymadael o gyfarfod y boreu er bod yn bresennol mewn lle arall. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Nina Davies, A.L.C.M., Foelallt. Cynhaliwyd *Rehearsal* yn yr hwyr o dan arweiniad Mr. Dan Davies, L.T.S.C., Belan House, Llanybydder, a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Lloyd, (S.)L.T.S.C., Cwmsychbant. Cyflawnwyd y rhannau arweiniol yn y tri cyfarfod gan y Parchn. S. Evans-Bowen, Dewi J. Jones, a Mr. John Evans, myfyriwr.

CAPELYFADFA.—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion cylch Llandysul yma nawn Sul, Mai 27. Daeth y pedair ysgol at ei gilydd yn neillduol o gryno a chafwyd hin ddymunol iawn. Holwyd yn y prynhawn a phregethwyd yn yr hwyr gan y Parch. Dewi J. Jones a gwnaeth y cyfan i foddlonrwydd cyffredinol. Yr oedd pawb yn falch i weld un o blant y Gymanfa'n gwneud mor dda. Arweiniwyd y canu gan Mr. D. Davies, Pantdefaid a chwaraewyd yr offeryn gan Miss May Evans, Gwaralltyfardre. Gofalodd boneddigesau'r Bwlch fod digon o fwyd a

chroesaw yn aros yr ymwelwyr. Ar derfyn cyfarfod yr hwyr siaradwyd gan Mri. D. W. Jenkins dros Pantdefaid, Jenkin Morgan dros y Graig, a William J. James dros Llwynrhydowen.

LLONGYFARCHIADAU.—Llawenydd i bob Cymro fu yn bresennol yn Llundain yn y Cyrddau Blynyddol oedd gweled am unwaith rywun o Gymru yn cynnal y Gwasanaeth Cymundeb, sef y Prifathro Park Davies. Llongyfarchwn ef ar hyn, ac hefyd Mr. George Eyre Evans am iddo fod yn un o'r hynafgwyr oeddynt yn cynorthwyo yn y gweinyddiad. Ni raid dweyd mai prif nodwedd y gwasanaeth oedd y symlder dwys ydym yn ddisgwyl mewn unrhyw wasanaeth gynhelir gan y Prifathro. Ni fyddai yn syndod gennym i lawer o'r Saeson oedd yn bresennol fyfyrio yn galed ar y gwahaniaeth rhwng y gwasanaeth hwn ac ambell un fum ynddo yn y gorffennol ag ynddo ragor nag awgrym o ddefodaeth ac offeiriadyddiaeth.

UNDODIAID CYMREIG LLUNDAIN.—Cynhelir gwasanaeth Cymraeg yn Stamford Street Chapel, Blackfriars, Llundain, ar ddydd Sul y 29 o Orffennaf, am chwarter i bedwar yn y prynhawn. Gwasanaethir gan y Parch. T. L. Jones, Cefn Coed. Mae'r cyfeillion yn Stamford Street wedi ymgymeryd a darpar tê yn rhad i ymwelwyr. Ceir hysbysiad pellach a rhagor o fanylion, os bydd angen, yn rhifyn Gorffennaf.

GRAIG, LLANDYSUL.—Dymuna Eglwys y Griag ddiolch o waelod eu calonnau i Miss Davies, yr Alma, am y rhodd werthfawr a wnaeth i'r Eglwys uchod, sef Board i osod ar y mur gerllaw y pulpud (Hymn Board), i nodi i'r gynulleidfa yr Emynau fydd yn cael eu canu yn y gwasanaeth. Dymunwn hir oes i'r foneddiges barchus. Y mae iddi hi a'i theulu gysylltiad agos oddiar cychwyn yr achos yn Llandysul ac y mae hithau wedi bod yn chwarae'r organ yn y Graig am flynyddau hir. Mewn gair hi oedd yr organyddes gyntaf yma.

PANTYDEFAID.—Mawr ddyled sydd arnom i Mrs. Josiah Jones, Garthowen, am ei charedigrwydd i gapel Pantydefaid. Mae wedi dodrefnu yn haelionus iawn y Bwrdd Cymun, y sêt fawr a'r pulpud, ac yn gelfyddgar iawn. Diolchwn hefyd i Miss Thomas, Vrondole, am ei rhoddion gwerthfawr i'r Ysgol Sul. Bydd y piano, y cwpwrdd llyfrau, a'r llyfrau yn ddefnyddiol dros ben. Bu Mrs. Jones, Siop Rhydowen a Mr. a Mrs. Davies, Morfa, Ceinewydd, mor garedig a rhoddi gwledd o dê i Ysgol Sul a Chynulleidfa Pantydefaid, Mai 9fed. Daeth tyrfa dda ynghyd a mwynhawyd y tê ardderchog gan bawb. Yn yr hwyr cafwyd cyngerdd hwylus a phlant yr Ysgol Sul yn gyfrifol am y rhaglen.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Trem yn ol yw amcan yr ychydig sylwadau hyn, dros dymor ein cymdeithas ddiwylliadol. Cynhaliwyd cyfarfodydd bob wythnos yn ddidor drwy y gaeaf. Bu'r mynychiad ar y cyfan cystal ag arferol, a'r hwyl a'r ddiddordeb ogystal. Agorwyd y tymor ddechrau mis Hydref diweddaf gan y Parch. Lewis Williams, Ciliau a Rhydygwin. Cawsom ganddo ychydig o hanes tyfiant " Undodiaeth yn Nyffryn Aeron." Arweiniwyd ein meddyliau yn ôl ymhell i hanes y ddwy eglwys, hanes ddywed wrthym am ddewrder a ffyddlondeb di-ildio y tadau boreuol i'r gwirionedd fel y gwawriai arnynt. Rhoddodd i ninnau fel aelodau arfogaeth gref ar ddechrau y tymor i fod yn ffyddlon a brwdfrydig gyda'r gwaith da o ddiwyllio ein hunain. Cawsom hefyd yn ystod y tymor bapurau penigamp gan y Parchn. T. L. Jones, Cefn, V. M. K. James, Highland Place, Mr. M. Davies, Cyn-Ysgolfeistr, Cwmdâr, a'n parchus weinidog, y Parch. E. R. Dennis. Papurau oedd y rhai hyn roddodd i ni ymborth meddyliol ac adeiladol ac hyderwn fod yr awgrymiadau, fel yr hâd da, wedi syrthio i dir da, ac y blagura mewn amser yn gynnaeaf ffrwythlon ac yn fendith i'n eglwys. Teilwng yw'r aelodau fu yn ein hanerch o deyrnged o ddiolchgarwch hefyd. Bu amryw o honynt a'i hysgwyddau dan y baich, Hyderwn y deuant yn ol yn yr Hydref i gychwyn y tymor nesaf wedi cryfhau eto yn eu sel dros waith y gymdeithas. Ni fydd edifar gan neb o honynt am y rhan a gymerant mewn cymdeithas sydd a'i hamcan i ddiwyllio eu haelodau yn feddyliol, ac ysbrydol.

RHYDYGWIN—Wedi hanner can mlynedd ! Yn ddiweddar, ymwelais â Rhydygwin, a da oedd gennyf weld y gweinidog yn edrych cystal ac yn pregethu mor rhagorol. Teflais gip oddiamgylch ond briw i'm bron oedd canfod ond ychydig iawn o'm hen gyfoedion hanner can mlynedd yn ôl yn bresennol—dim ond dau a own yn adnabod " Saunders " a " Hughes ",—gwelaf Hughes yn awr yn mynd â Chôr i Eisteddfod Aberaeron. Y mae'r arweinydd yn fyw ond ble mae'r côr. Dechreuais holi " Where are all my comrades led." Ble mae Sam Howells a'i frawd David [ond erys dau o blant Sam yn Ystrad o hyd], Bechgyn Graigwen—Tomi, Tim, Dan, Beni yn fyw yn awr ac yn hen gyfaill i mi. Yr oeddent bob yr un yn gantorion ardderchog a phleser oedd gwrando canu Rhydygwin. Hefyd Daniel, Jenkin a David Aldergate—dau ohonynt yn weinidogion Undodaidd, ond yn y bedd ers llawer blwyddyn ; Jim a Thom Salem Felinfach y sydd yn awr yn yr Amerig. Dyna'r bechgyn oedd yn yr ysgol gyda mi yn Felinfach tua'r flwyddyn 1880. O fwrw ail olwg gwelwn eisiau David Davies, Stonecutter, Daniel Felin Felinfach a'r teulu. Y mae gennyf gof am Tom Lloyd Jones, [Tom bach yr Ivy] yn pregethu yn Rhydygwin o Lerpwl. Er fy mod wedi tramwy llawer o'r hen fyd y mae gennyf atgof melys a llawer o hanes hen Undodiaid Dyffryn Aeron. Cofiaf William Rees yn mynd ar ei geffyl i bregethu i Giliau. Y mae John Jenkins [Aldergate yn awr] yn aros fel darn o 'slawer dydd. Yn nrych y cof gwelaf John Llainmanal, David Howells y shop fach, Walter Jenkins, ond y mae Jenkin Jenkins, Glasgoed yn aros i gynrychioli teulu Glanwern. Pwy eto ? Leonard Evans a'i deulu Banc Greengrove, Daniel a Marged Belle View [ynghwmaman Aberdâr wedi hynny]. Y mae hiraeth am yr hen wynebau arnaf ambell dro, ac er crwydro'r byd ni chollais fy nghariad cyntaf. Bum ynghapel Undodaidd Dowlais tra fum yno nes symud i Gwm Rhymni tua 1905 a dod yn ôl yn y diwedd i Aberaeron, a phan chwyth yr awel o'r tir teimlaf ei bod yn dod dros fryniau y smotyn du. Erbyn cyrraedd gartref y noson honno yr own wedi blino'n lân wrth fynd yr ail waith ar fy nghrwydriadau a lleithiai fy llygaid o weld eisiau cynnifer o'm hen gydnabod. Diolchwn fod ychydig yn aros i'm cyfarch a chalon gynnes ac wrth ffarwelio a hwy nid oedd i mi ond edrych ymlaen yn ffyddiog gan ddweyd :

" Hawdd fydd nabod hen wynebau
Wedi croesi niwl y glyn."

E. Jones, Hendref, Aberaeron.

[*Un o deulu yr Hybarch John Davies, Alltyplaca*].

Er Cof Annwyl am FRANCES JONES, Clettwr Vale, Talgarreg, a fu farw ar y 27ain o Ragfyr, 1933.

Wele un o'm cyd-chwaraewyr
Wedi cyrraedd pen ei thaith,
Un oedd annwyl yn yr ardal,
Un a gofir amser maith ;
Un o'r cwmni bach gychwynai
Ma's o'r pentre law yn llaw,
I ysgoldy fach Talgarreg,
Ie'n brydlon erbyn naw.

Aeth y cwmni bach ar wasgar,
Do, i bedwar ban y byd,
Ond yn ffyddlon cefais Ffrances,
Yn gyfeilles im' o hyd ;

Penlon, Tregroes.

Merch na wyddai am ddigofaint,
Nag un gelyn ydoedd hon,
Llonnai bawb lle bynnag byddai,
Pwy anghofia'i llygad llon ?

Cwsg, fy hen gyfeilles annwyl,
Yn y fynwent ar y bryn,
Duw a roddodd yn addewid—
Inni gwrddid ar ôl hyn ;
Cofiaf am ein cyfeillgarwch,
Tra y rhodiaf dir y byw,
Un mwy annwyl im' ni roddwyd,
Yn ei bedd yn erw Duw.

M. Davies.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post **8/-.**

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post **4/10.**

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post **2/9.**

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post **1/8.**

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST. ABERYSTWYTH

TELEPHONE NO. 209.